O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1394 (Cy. 165)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tre'r-ddôl a Thre Taliesin, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2011

Wedi'i wneud	*27 Mai 2011*
Yn dod i rym	*10 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Abergwaun i Fangor (A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ("Deddf 1984 ") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2011, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tre'r-ddôl a Thre Taliesin, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2011 .

2.Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

3.Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog Llywodraeth leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mai 2011

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Abenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru